Cofnodion Cyngor nos Iau Mawrth 3 2022 am 7pm
Presennol: E.R.Noble, L.Roberts, C.Brewer, C.L.Price, M.Skerrett, M.Chapman, T.W.Jones, M.L.Hughes.
Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth Llywelyn Roberts oedd yn gyn aelod o'r Cyngor, a gofynwyd i'r Aelodau sefyll er parch iddo.

Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 3.2.22, cynnig C.L.Price, cefnogi M.Chapman.

Heddlu. Dim i'w adrodd.

Yr A470. Yn dilyn cyfarfod diweddar mae Liz Roberts wedi cael gwybodaeth am hawliau parcio ar y Sgwar, mae hi wedi gofyn i NMWTRA am gael 'rhwystrau' i rwystro ceir rhag parcio hyd at yr A470 gan obeithio ei cael mewn lle yn y flwyddyn ariannol newydd gyda Llyw. Cymru yn gyfrifol am yr arian gyda thrafodaeth gyda CBSC oherwydd y berchnogaeth rhannol o'r safle.
Yr ochr arall i'r A470 mae cynllun yn dangos mai ffordd Sirol yw Stryd yr Eglwys hyd at y ffin gyda'r A470, felly cyfrifoldeb CBSC fydd delio â problemau gyda ceir yn parcio yno.

Cyngor Sir. Paul Sagar NMWTRA yn delio â gosod y 'lanterni' newydd ar y polion trydan, y gwaith i gychwyn ym mis Ebrill. Dim gwybodaeth ynglŷn â chlirio tyfiant oddiar Pont Gethin.

Llwybrau. Dim datblygiadau gyda'r 'ystol' ger Granllyn ond mae llawer yn dal i'w defnyddio.

Pontydd yn yr Ardal. Diolchodd y Cadeirydd i Liz Roberts am ei gwaith yn cydlynu y gwaith gyda'r cwmni sy'n gweithio ar Bont Sarn Ddu, y gwaith yno wedi'i gwblhau bellach.
Mae'n debygol mai yn ystod yr Haf y bydd y gwaith yn cychwyn ar Bont yr Afon ac y bydd angen cael trefn traffig un ffordd yno.

Cynlluniau.
Ty'n Afallen - dim penderfyniad
Bodygroes - dim sylwadau
Pont Chwarel y Fedw - dim sylwadau

Llifogydd. Dywedodd L.Roberts ei bod ar ddeall y bydd gwaith daearyddol yn cael ei gynnal yn yr ardal yr wythnos nesaf.

Scottish Power. Cadarnhaodd L.Roberts ei bod wedi cael gwybod bod llawer o'r problemau gyda colli'r trydan wedi'i achosi yng nghoed Hafod Gwenllian. Mae hi'n trefnu cyfarfod gyda Arweinydd CBSC, NRW, SPEN, a'r Aelod Seneddol i drafod y ffordd orau i fynd ati i ddatrys y problemau colli pwer yn ystod gwyntoedd a stormydd.

NRW. Y 'bollards parcio' newydd yn eu lle, mae aelod o'r pwyllgor preswylwyr wedi bod yn weithredol iawn yn cydweithio â'r contractwr, y safle yn edrych yn dda iawn. Diolch i NRW a D&C Jones am eu gwaith gyda hyn.

Toiledau. Clerc wedi cysylltu â Swyddfa'r Cyfreithiwr yn Llanrwst eto ac wedi anfon llythyr yn nodi y posibilrwydd o golli grant os na fydd y trosglwyddiad wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 31 2022.

Y Gofgolofn. Gan fod taliad grant wedi'i dderbyn ar gyfer y prosiect mae L.Roberts wedi cael cais i roi adroddiad am y gwaith i Grwp o'r Lluoedd Arfog bydd yn gwneud hyn.

Y Fynwent. Roedd C.Brewer wedi paratoi adroddiad manwl yn cynnwys gwahanol agweddau o'r gwaith fydd ei angen ar gyfer yr aelodau a diolchwyd iddi am hyn. Bydd torri'r coed yn brosiect mawr ac mae gwahoddiadau wedi'i hanfon i 3 person ar gyfer amcan bris. R.Roberts o'r Parc Cenedlaethol wedi dweud na fydd angen trwydded ar gyfer hyn os yw'r fynwent yn dir cysegredig, ac mae hi. Fe wnaiff baratoi cynllun plannu ac awgrymu mathau addas o goed i'w plannu a chyflwyno 70 o goed fel rhan o ddathliad 70 oed y Parc Cenedlaethol. Mae L.Roberts yn aros am wybodaeth gan S.Teale ynglŷn â rhagor o waith gan CBSC ar y safle. Liz wedi derbyn amcan gyfrif gan I.Davies ar gyfer gwaith ar y meinciau a'r giat, cytunwyd arnynt mewn egwyddor. C.Brewer wedi cyfarfod â Daniel i drafod yr arolwg ystlumod yn y Cwt Hers, cytunwyd ar ei amcan bris. Liz a Connie wedi trafod y ffordd i ac yn y fynwent ynghyd â'r maen gyda Darren Jones, fe wnaiff anfon amcan bris yn fuan. O ran y gwaith adeiladu bydd angen dyluniad a pensaer. Ar gyfer yr ymgynghoriad gyda'r gymuned mae trefniadau mewn llaw ar gyfer Mawrth 12 rhwng 10.00 a 13.00 yn y Pafiliwn Cymunedol. Cytunodd y Clerc i gyfieithu unrhyw ddogfen fel bo'r angen.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig C.Brewer, cefnogi L.Roberts a pawb o blaid.

Gwefan y Cyngor. Cadarnhaodd M.Skerrett ei fod yn hyderus o allu trefnu i gwblhau'r gwaith o ddatblygu safle newydd i'r Cyngor yn fuan, cynigodd C.Brewer i roi help iddo fel bo angen.

Sgip. Y dyddiiad ar gyfer cael ymweliad Sgip ydi Mai 10fed, roedd y Clerc wedi derbyn hwn, cytunwyd ar gynnig M.Skerrett y dylid trefnu ymweliad arall ar gyfer mis Awst.

Beicio Taith Eryri. Neges gan J.Taylor NRW yn nodi 'Galllaf eich sicrhau ein bod yn gwneud popeth allwn i sicrhau ein bod yn parhau i barhau gyda'n teithiau beicio yn Nolwyddelan ac yn sicrhau bod hyn yn dderbyniol i bawb a bod diogelwch y cyhoedd yn cael ei ystyried'. Dim rhagor o fanylion i law.

Trafod Dogfen. Trafodwyd y ddogfen ond teimlai yr Aelodau ei bod angen rhagor o amser i'w hystyried, Clerc i drafod gyda H.Jones.

Adeilad gwâg yn y Pentref. Deallwyd fod addewid o wrthodiad cyntaf wedi ei roi i berson oedd wedi gwneud ymholiad ar gyfer ei brynu.

Diffibriliwr. Cadarnhaodd M.Skerrett ei fod wedi cyfarfod â Tomos yn y pentref yn ddiweddar ac wedi newid y batri yn y rhai sydd yn y pentref, diolchwyd iddo am hyn.

Mainc. Nid oedd gwrthwynebiad i gais gan Shaun Hewitt i osod plac ar fainc yn y Gofgolofn.

Cyngor Sir. Clerc i gysylltu i ddwyn sylw fod angen gwaith ar Bont Tan y Castell; tyllau hyd Ffordd Llwyn ac ar Ffordd Roman o Allt Ffridd hyd at Pen Bont. Hefyd dwyn sylw eto i gyflwr Ffordd Cyfyng o'r Capel i fyny'r allt

Cyfarfod nesaf: Cytunwyd y dylid cyfarfod nesaf yn y Pafiliwn nos Iau Ebrill 7 2022 am 7pm.